Pwy bynnag ydych chi, beth bynnag yw'r broblem

Gwasanaeth Cyngor Ar Bopeth a chydraddoldeb

cyngor ar bopeth

Ein hegwyddorion

Mae gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yn cynnig cyngor annibynnol, cyfrinachol a diduedd i bawb am eu hawliau a'u cyfrifoldebau, a hynny'n rhad ac am ddim. Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth, yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn herio gwahaniaethu.

Ein nodau

- Rhoi'r cyngor angenrheidiol i bobl ar gyfer y problemau a wynebant.
- Gwella'r polisïau a'r arferion sy'n effeithio ar fywydau pobl.

I gael gwybod mwy am strategaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth y gwasanaeth Cyngor Ar Bopeth ewch i www.citizensadvice.org.uk/equality_diversity_strategy

Mae gwasanaeth CAB… yn gwasanaethu'r gymuned gyfan

Mae'r 412 Canolfan Cyngor Ar Bopeth (CAB) wrth galon eu cymunedau. Mae eu gwasanaethau ar gael i bawb.

- Yn 2008/09, roedd 21 y cant o gleientiaid y canolfannau'n anabl neu â phroblemau iechyd hirdymor ac roedd 15 y cant yn dod o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

- Mae'n fwy tebygol fod rhieni sengl, pobl anabl, pobl â chyflwr iechyd hirdymor, a phobl sy'n derbyn budd-dal ar sail prawf modd wedi defnyddio canolfan CAB nag eraill[1].

- Mae llawer o ganolfannau hefyd yn darparu gwasanaethau sydd wedi'u teilwra i grwpiau penodol, megis pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, cyn droseddwyr, pobl â HIV, gofalwyr a phobl hŷn.

1 Y ffigurau gan Uned Ymchwil y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol

Cynghori'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr

Mae prosiect Cyngor Cymunedol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr CAB yn darparu cyngor pwrpasol, cymorth eiriolaeth a datblygu i aelodau'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn Swydd Buckingham, Swydd Rhydychen, Swydd Berkshire a Milton Keynes.

Image courtesy of The Gypsy Media Company Ltd

Mae gwasanaeth CAB… yn herio gwahaniaethu

Mae cleientiaid CAB sy'n profi gwahaniaethu yn dweud wrthym pa mor ddinistriol yw hynny. Ac yn aml, gall problem gwahaniaethu arwain at we gymhleth o broblemau yn cynnwys dyled, digartrefedd a pherthynas yn chwalu.

- Yn 2008/09, fe ddeliodd y Canolfannau Cyngor Ar Bopeth â thros 250,000 o ymholiadau yn ymwneud â gwahaniaethu. Gwelodd y Canolfannau Cyngor Ar Bopeth gynnydd 17 y cant mewn ymholiadau yn ymwneud â gwahaniaethu mewn cyflogaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

- Mae pob cynghorydd newydd gyda CAB yn cael hyfforddiant i ganfod gwahaniaethu a rhoi cyngor ar y mater.

- Gall yr holl ganolfannau gael gafael ar gefnogaeth gyfreithiol arbenigol oddi wrth ein tîm cenedlaethol o arbenigwyr cyflogaeth a chydraddoldeb.

- Mae nifer cynyddol o ganolfannau'n cynnig gwasanaethau cynrychioli a gwaith achos yng nghyswllt gwahaniaethu.

Cael cyfiawnder i gleientiaid



Fe gydweithiodd CAB Casnewydd a Chanolfan Ragoriaeth Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol Cymru i roi cyngor i ŵr hoyw a oedd yn honni iddo ddioddef gwahaniaethu ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Penderfynodd y tribiwnlys ei fod wedi dioddef 'ymddygiad gwahaniaethol gwrthun' a rhoi dyfarniad sylweddol.

©iStockphoto.com/Tony Baggett

Mae gwasanaeth CAB… yn cefnogi dioddefwyr trais

Mae camdriniaeth a thrais yn dal yn rhan o brofiad llawer o gleientiaid CAB. Mae Canolfannau Cyngor Ar Bopeth yn cefnogi pobl o bob cefndir sy'n wynebu trais, gan gydweithio'n agos â'r heddlu a mudiadau cymunedol lle bo hynny'n briodol.

- Mae dros 120 o ganolfannau yn ganolfannau rhoi gwybod am droseddau casineb, ac mae'r un nifer yn aelodau o gynllun monitro digwyddiadau hiliol.

- Y llynedd, deliodd y canolfannau â 18,003 o ymholiadau am drais domestig. Mae nifer o ganolfannau'n darparu gwasanaethau cyngor arbenigol i ddioddefwyr trais domestig.

Herio troseddau casineb

Cynorthwyodd CAB Dudley un o'u cleientiaid i gwyno wrth yr heddlu ac i'r Tribiwnlys Cyflogaeth, yn dilyn ymgyrch dreisgar o aflonyddu hiliol a chrefyddol yn y gwaith. Cafodd tri dyn eu carcharu am y gamdriniaeth, a gwnaeth y cyflogwr setliad sylweddol.

Mae gwasanaeth CAB… yn ymgyrchu dros gydraddoldeb a hawliau dynol

Mae gwasanaeth CAB yn ymgyrchu dros newidiadau i bolisi ac ymarfer sydd o fudd i filiynau o bobl bob blwyddyn. Mae cydraddoldeb a hawliau dynol wrth wraidd ein hymgyrchoedd.

- Rydym yn ymgyrchu dros hawliau gweithwyr bregus, gan gynnwys gweithwyr mudol, i gael gwarchodaeth yn y gwaith.

- Gan weithio gydag elusennau iechyd meddwl a dyled, rydym wedi datblygu canllawiau i fenthycwyr sy'n delio â chwsmeriaid sydd â phroblemau iechyd meddwl.

- Rydym wedi dadlau'n llwyddiannus dros ddyrannu mwy o arian i wasanaethau cynghori ar gyfer carcharorion a chyn droseddwyr.

- Mae ein pecyn 'Cydraddoldeb a Hawliau Dynol' newydd yn helpu'r canolfannau i ymgyrchu dros hawliau dynol a chydraddoldeb ar lefel leol.

Nofio i bawb

Fe ddefnyddiodd CAB Sir y Fflint y Ddyletswydd Cydraddoldeb Anabledd i ymgyrchu'n llwyddiannus dros gael mynediad am ddim i ofalwyr a chynorthwywyr personol pobl anabl i byllau nofio'r awdurdod lleol.

©iStockphoto.com/Alex Bramwell

Mae gwasanaeth CAB… yn grymuso pobl drwy gyfrwng cyngor

Mae cyngor da yn helpu pobl i gael rheolaeth ar eu bywydau. Ein nod yw darparu gwybodaeth a chyngor i fwy o bobl, mewn ffordd sy'n addas iddynt hwy.

- Derbyniodd ein gwefan hunangymorth Adviceguide.org.uk dros 8.7 miliwn o ymweliadau yn 2008/09, gyda mwy o wybodaeth o ansawdd gwell ar faterion gwahaniaethu. Mae'n darparu gwybodaeth bwysig yn y Gymraeg ac mewn 13 iaith gymunedol arall.

- Drwy ein rhaglen mynediad, ein nod yw dyblu nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaeth CAB erbyn 2011, gan gynnig cyngor ar-lein, dros y ffôn ac yn bersonol, yn ogystal â datblygu gwasanaeth cyngor dros yr e-bost.

- Rydym yn cydweithio â mudiadau cyngor eraill i wella'r broses atgyfeirio i bobl â phroblemau yn ymwneud â gwahaniaethu, ac i ddatblygu gwybodaeth i'r cyhoedd ar faterion cydraddoldeb a gwahaniaethu.

Rheoli arian

Mae dros 12,000 o unig rieni yn Lloegr, y rhan fwyaf ohonynt yn ferched, wedi derbyn cyngor a hyfforddiant gan wasanaeth CAB ar reoli eu sefyllfa ariannol, drwy'r prosiect Horizons a noddir gan Barclaycard.

Mae gwasanaeth CAB… yn defnyddio talentau pawb

Mae'r gwasanaeth Cyngor Ar Bopeth yn fan croesawgar llawn amrywiaeth ar gyfer staff a gwirfoddolwyr o bob cefndir.

- Mae 26,000 o bobl yn gweithio yn y gwasanaeth. Mae ugain mil ohonynt yn wirfoddolwyr.

- Daw 10 y cant o'r gwirfoddolwyr o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ac mae naw y cant yn anabl.

- Mae pedwar grŵp rhwydwaith yn darparu cymorth a llais polisi ar draws y gwasanaeth ar gyfer: staff a gwirfoddolwyr anabl; staff a gwirfoddolwyr Du; staff a gwirfoddolwyr lesbiaidd, hoyw a deurywiol; a staff a gwirfoddolwyr sy'n ferched.

Cynnwys gwirfoddolwyr iau

Mae bron i 450 o bobl ifanc wedi gwirfoddoli am y tro cyntaf mewn canolfannau ar draws Cymru a Lloegr, gyda chymorth gan yr elusen gwirfoddoli ymhlith pobl ifanc v. Mae ein fforwm ieuenctid cenedlaethol yn sicrhau bod mentrau pobl ifanc gwasanaeth CAB yn cael eu tywys gan y bobl ifanc eu hunain. Yn genedlaethol, roedd 19 y cant o wirfoddolwyr newydd yn 2007/08 o dan 25 oed.

I gael gwybod mwy am y gwasanaeth Cyngor Ar Bopeth a'i waith ewch i:
www.citizensadvice.org.uk

I gael cyngor ar-lein ewch i:
www.adviceguide.org.uk

Llinell Gwirfoddolwyr
08451 264 264 (pris galwad lleol)

Citizens Advice
Myddelton House
115–123 Pentonville Road
London N1 9LZ
Tel: 020 7833 2181
Fax: 020 7833 4371

Rhif cofrestru'r elusen: 279057 | Gorffennaf 2009